**Cyngor Cymdeithas LLANNERCH-Y-MEDD Community Council**

---

**IS-BWYLLGOR CYLLID**
**14.01.20**
**6:00pm**
**Safle'r Stesion**

# COFNODION

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
**Presennol:** DL:DAW;JOJ;JAJ (Cadeirio); AR;EW
**Ymddiheuriadau: EO**

2. **Datgan Diddordeb**
Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb

3. **Cofnodion 22.01.19**
Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 22.01.19

4. i. **Adolygu Cyllideb - 2019- 20**
Cyflwynodd y Clerc gyda chymorth EW ddiweddariad ar wariant cyllideb 2019-20 hyd at 31.12.19. Treuliwyd cyfnod y cyfarfod yn adolygu'r gwariant er mwyn gosod cyllideb 2020-21.

Nodwyd y canlynol:-

- Pwysigrwydd o sicrhau cyllideb wrth gefn ar gyfer unrhyw argyfwng a gwariant na ellir ei ragweld
- Angen adolygu colofn Gofal Pentref er mwyn adlewyrchu bod y gwaith blaenorol bellach yn cael ei wneud gan wirfoddolwyr.
- Sicrhau bod cyflog y Clerc ar raglen Pwyllgor Llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn
- Clerc i gysylltu â Rhys Jones i fwrw 'mlaen a'r gwaith creu Cofrestr Asedau.

Cytunwyd yn unfrydol bod edrych ar y gyllideb drwy ffurf taflunydd yn ffordd effeithiol iawn i'r dyfodol. Cytunwyd i ofyn i EW roi cyflwyniad tebyg i'r Pwyllgor Llawn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.


Mrs Sydna Roberts
Clerc Gweithredol
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydna@roberts6586.freeserve.co.uk

ii. **Gosod y Gyllideb – 2020-21**
Trafodwyd uchod.

## 5. Cytuno Praesept 2020-21

Cytunwyd i gyflwyno argymhelliad yr Is Bwyllgor Cyllid i godi'r Praesept ar gyfer 2020-21 er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys fydd yn ymateb i'r gofynion cyllidol cynyddol 30 Ionawr 2020. Clerc i sicrhau bod y gwaith papur yn cael ei gwblhau a'i anfon gyda llaw i CSYM erbyn y dyddiad cau sef 1.2.19
Argymhellwyd codiad o 6.0% sef £32 y pen fydd yn rhoi taliad blynyddol o £17,482 o'i gymharu â £16, 492.62 llynedd.

Adolygwyd y Rheolau Cyllidol a chytunwyd i ostwng y swm hawl i gyllido o £1.5K i £1K yn unol âg argymhelliad archwilwyr allanol – BDO.

## 6. Unrhyw fater arall

Nododd y Clerc bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'n asiant Rhys Jones i sefydlu Cofrestr Asedau yn unol âg argymhelliad y BDO. Cytunwyd i'r Pwyllgor Llawn gymeradwyo fersiwn terfynol yng nghyfarfod mis Mawrth 2020 ac fe gyflwynir Cofrestr a Pholisi Risg i'w adolygu yr un pryd.

Mrs Sydna Roberts
Clerc Gweithredol
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydna@roberts6586.freeserve.co.uk